# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD IAU, 25 AWST 2016**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** A GYNHELIR YN **YSTAFELL BWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD IAU, 1AF MEDI, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**AELODAETH – 5 AELOD**

**GRWP PLAID CYMRU 2 AELOD**

1. Y Cynghorydd W.T. Evans [Is-Gadeirydd]
2. Y Cynghorydd D. Price

**GRWP LLAFUR 2 AELOD**

1. Y Cynghorydd T. Davies [Cadeirydd]
2. Y Cynghorydd J.D. James

**GRWP ANNIBYNNOL 1 AELOD**

1. Y Cynghorydd H.B. Shepardson

# A G E N D A

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 17EG MAWRTH 2016** | 5 - 10 |
| **4.** | **Y TREFNIADAU SEFYDLU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU 2016/17** | 11 - 16 |
| **5.** | **ADOLYGU GWYBODAETH AR-LEIN Y CYNGOR O DAN Y PENNAWD CYNGOR A DEMOCRATIAETH** | 17 - 20 |

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**DYDD IAU, 17EG MAWRTH, 2016**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd T. Davies [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans, P. Hughes Griffiths (Yn lle D. Price), J.D. James a H.I. Jones (Yn lle H.B. Shepardson)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd L.M. Stephens, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| Ms L. Rees Jones | - | Y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Ms G. Morgan | - | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ms M. Edwards | - | Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu Corfforaethol |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00pm - 2.40pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Price a H.B. Shepardson.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD OEDD WEDI EI GYNNAL AR 27ain TACHWEDD, 2015, GAN EU BOD YN GYWIR**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 27ain Tachwedd, 2015.**

**4. CYNLLUN DATBLYGU'R AELODAU 2015/16 - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran Cynllun Datblygu'r Aelodau 2105/16 gan gynnwys y rhaglenni ychwanegol oedd wedi eu hychwanegu'n ddiweddar, yn sgil ceisiadau gan aelodau. Dosbarthwyd yn y cyfarfod gopi diwygiedig arall a oedd yn cynnwys rhoi sylw i Ddynladdiad Corfforaethol a Sgiliau Cyfryngau.

Atgoffwyd Arweinwyr y Grwpiau a'u Dirprwyon o'u rôl o ran clustnodi anghenion datblygu aelodau eu plaid. Byddai unrhyw anghenion ychwanegol a godai o hyn yn sylfaen i gynllun y flwyddyn nesaf neu, pe byddid yn barnu eu bod yn faterion brys, byddid yn eu hychwanegu at y cynllun presennol.

Yr oedd yr adroddiad ynghylch Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd wedi ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2016, yn cynnwys awgrymiadau ynghylch gwella'r meysydd canlynol yng nghyswllt datblygu'r aelodau:-

- Datblygu a darparu hyfforddiant i helpu'r Aelodau i ddeall eu rolau a'u

cyfrifoldebau, ac adnewyddu'r hyfforddiant hwn wrth i Aelodau symud o rôl i rôl.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod ceisiadau wedi dod i law am hyfforddiant ynghylch y Gymraeg. Awgrymwyd, gan fod cymaint o wahaniaeth o ran anghenion pobl, y dylid cysylltu â'r aelodau i gael gwybodaeth am eu hanghenion ac yna gellid trefnu hyfforddiant yn unol â'r anghenion hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**5. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017 - CYNIGION AR GYFER SEFYDLU AELODAU.**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Rhwydwaith Swyddogion Gwasanaethau Aelodau Cymru, a oedd yn cael ei gefnogi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi cael trafodaeth yn ei gyfarfod diwethaf ynghylch cael ymagwedd gyffredinol ledled Cymru at Raglenni Sefydlu Aelodau. Nodwyd bod yr Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn draddodiadol, wedi bod yn cydweithio er mwyn cynllunio a chefnogi gweithgareddau sefydlu ar gyfer aelodau newydd yng Nghymru ar ôl etholiadau lleol, a chytunwyd y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn llunio cwricwlwm sefydlu y byddai modd ei gydgysylltu ar draws yr awdurdodau i arbed arian ac amser.

Eglurwyd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio dogfen ymgynghori ynghylch sefydlu, a gofynnwyd am farn y Pwyllgor am y rhaglenni Sefydlu Aelodau ar gyfer aelodau etholedig newydd ac aelodau etholedig a fyddai'n dychwelyd ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol 2017.

Byddai barn y Pwyllgor yn cael ei defnyddio'n bennaf i glustnodi adnoddau a gweithgareddau sefydlu ac i drefnu deunyddiau a darparwyr lle nad oedd y rhain yn bod eisoes. Hefyd byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn sylfaen i drafodaethau'r Rhwydwaith Swyddogion Gwasanaethau â'r is-adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru ynghyd â darparwyr posibl eraill o ran cymorth a datblygu i aelodau, ac yn sylfaen i ystyriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr.

Y farn oedd y dylid ystyried cynnwys cyrff sector gwirfoddol/cyrff allanol yn unrhyw raglenni/darpariaeth hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL BOD Y CYNGOR yn gweithredu'r rhaglen sefydlu gydgysylltiedig i'r aelodau fel yr oeddid wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad, ac yn ystyried y posibiliadau o ran cynnwys cyrff sector gwirfoddol/cyrff allanol.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) (CHWEFROR 2016)**

Yr oedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ym mis Chwefror 2016, a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried ei benderfyniadau a'i argymhellion, a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor eu cynnwys yng Nghynllun Cyflogau a Lwfansau'r Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2016/17.

Yr oedd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2016 yn helaethu maes gorchwyl y Panel er mwyn cwmpasu newidiadau i gyflogau Prif Swyddogion Awdurdodau neu


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Brif Gynghorau.  Daethai'r rhan hon o'r Ddeddf i rym ar ddiwedd Ionawr 2016.

Yr oedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wrth bennu lefel y cyflogau a'r lwfansau ar gyfer 2016/17, wedi penderfynu na fyddai cynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol o ystyried y cyfyngiadau parhaus ar wariant llywodraeth leol.  Fodd bynnag yr oedd wedi cyflwyno dwy lefel o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Aelodau Byrddau Gweithredol (ac eithrio Arweinwyr a Dirprwy Arweinwyr) ac ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau fel bod pob awdurdod lleol yn gallu rhoi ystyriaeth i'r gwahaniaethau o ran cyfrifoldebau a allai fod gan swyddi penodol. Eglurwyd taw mater i bob Cyngor oedd penderfynu ar y lefel a delid yn unol â'r amgylchiadau lleol.  Fodd bynnag yr oedd y Panel yn barnu bod gwahaniaethau mewn nifer o achosion rhwng cyfrifoldebau portffolios Aelodau Byrddau Gweithredol a Chadeiryddion Pwyllgorau, ac y dylid adlewyrchu hyn yn lefel y gydnabyddiaeth ariannol.  Dywedwyd y byddai'r Panel yn rhoi ystyriaeth i ba raddau y defnyddid yr ymagwedd hyblyg hon pan fyddai'n monitro'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol yn yr hydref.

Gofynnwyd am farn y Pwyllgor am y taliadau i Aelodau Byrddau Gweithredol, Cadeiryddion Pwyllgorau, Penaethiaid Dinesig a Dirprwy Benaethiaid Dinesig, ynghyd â'r Lwfansau Cynhaliaeth a'r Lwfansau Llety, Cydnabyddiaeth Ariannol Cadeiryddion Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a thalu Ffïoedd Aelodau Cyfetholedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17.

Gofynnwyd a oedd angen cael dau Ddirprwy Arweinydd yn enwedig o ystyried bod yr Awdurdod yn ceisio arbed arian. Cytunodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i gyfleu sylwadau'r Pwyllgor i'r Arweinydd. Fodd bynnag, atgoffodd y Pwyllgor fod y cyfrifoldeb dros benodi Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Dirprwy Arweinwyr a thros lunio eu portffolios wedi ei ddirprwyo i'r Arweinydd, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd fawr ddim gwahaniaeth o ran y swm a delid gan fod y lwfans yn cael ei rannu rhwng y ddau Ddirprwy Arweinydd.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR**

**6.1 nodi bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig prif awdurdodau lleol yn 2016/17 fydd £13,300 o hyd;**

**6.2 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn 2016/17;**

**6.3 cadw'r drefn bresennol o ran lefel yr uwch-gyflog a delir i Gadeiryddion Pwyllgorau yn 2016/17;**

**6.4 cadw'r drefn bresennol o ran lefel y cyflog a delir i Gadeirydd ac i Is-gadeirydd y Cyngor yn 2016/17;**

**6.5 cadw'r drefn bresennol o ran y cyfraddau ad-dalu costau cynhaliaeth yn 2016/17, a'r drefn bresennol o ran bod pob llety dros nos i aelodau yn cael ei drefnu drwy'r Uned Gwasanaethau Democrataidd;**

**6.6 parhau â'r arfer presennol o nodi'r trefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu gydag awdurdodau eraill a chynnwys y Pwyllgorau**

**hyn yng nghynllun y Cyngor pe bai'r Cyngor yn penderfynu sefydlu Cyd-bwyllgorau yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2016/17 a thalu cyflog;**

**6.7 bod y ffïoedd a delir i'r Aelodau Cyfetholedig yn aros ar y lefel bresennol ar gyfer 2016/17 sef dim mwy na 10 diwrnod llawn [neu 20 hanner diwrnod] o gyfarfodydd y flwyddyn;**

**6.8 derbyn gweddill argymhellion a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2016 a'u cynnwys yng Nghynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2016/17.**

**7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y CYNGHORWYR**

Atgoffwyd y Pwyllgor fod Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 yn datgan bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol drefnu ar gyfer y canlynol:

(a) bod pob un sy'n aelod o'r Awdurdod yn llunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r unigolyn fel aelod o'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi;
(b) bod pob un sy'n aelod o Weithrediaeth yr Awdurdod yn llunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r unigolyn fel aelod o'r Weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi; a
(c) bod yr Awdurdod yn cyhoeddi'r holl adroddiadau blynyddol a luniwyd gan ei aelodau a chan aelodau ei Weithrediaeth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr adroddiadau blynyddol oedd wedi eu cwblhau am 2014/15, a gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r canllawiau drafft a'r templed ar gyfer yr adroddiadau blynyddol o 2015/16 ymlaen.

Mynegwyd siom ynghylch bod cyn lleied o'r aelodau yn llunio adroddiad blynyddol. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wybod i'r Pwyllgor fod negeseuon atgoffa'n cael eu hanfon yn rheolaidd at yr aelodau ynghylch y mater hwn. Ychwanegodd fod y templed wedi ei ddiwygio, a'r gobaith oedd y byddai rhagor o'r cynghorwyr yn llunio adroddiadau yn sgil darparu gwell canllawiau a thempled symlach.

Dywedwyd nad oedd dim canllawiau ar gael i'r aelodau newydd ynghylch sut oedd llunio adroddiad blynyddol ac nad oedd y mater yn cael sylw ychwaith yn y sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y wybodaeth hon yn y Llawlyfr i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1 bod yr adroddiad yn cael ei nodi;**

**7.2 cymeradwyo canllawiau a thempled diwygiedig yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2015/16 ymlaen, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**8. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ADRODDIAD ASESIAD CORFFORAETHOL 2015**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal gwaith maes ynghylch yr Asesiad Corfforaethol o Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod mis Hydref 2015. Eglurwyd taw diben yr Asesiad Corfforaethol oedd darparu datganiad sefyllfa ynghylch gallu'r Awdurdod i wella'n barhaus.

Yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael canmoliaeth arbennig gan Swyddfa Archwilio Cymru am feddu ar weledigaeth oedd wedi ei sefydlu'n dda ac oedd yn cael ei gyrru yn ei blaen gan gyd-arweinyddiaeth gadarn o du'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Hefyd yr oedd cydnabyddiaeth wedi'i rhoi i'r fframwaith clir o gynlluniau a strategaethau trefnus a oedd yn trosi'r canlyniadau lefel uchel a gytunwyd rhwng y Cyngor a'i bartneriaid yn flaenoriaethau ar gyfer gweithredu, gan sicrhau bod ethos cryf o wella parhaus yn amlwg ym mhopeth a wnâi'r Cyngor.

Eglurwyd taw cyfrifoldeb Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd sicrhau bod cyfleoedd rhesymol ar gael i'r Cynghorwyr o ran hyfforddiant a datblygu, ynghyd â pharatoi adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynghylch darpariaeth o'r fath. Hefyd y Pwyllgor hwn oedd yn gyfrifol am hybu a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor.

Yr oedd adroddiad yr Asesiad Corfforaethol yn cynnwys awgrymiadau ynghylch gwella llywodraethu yn y meysydd canlynol:-

- Datblygu blaenraglenni gwaith er mwyn sicrhau bod yr holl bwyllgorau perthnasol yn cyhoeddi rhaglen sydd wedi ei diweddaru ac sy'n eiddo i aelodau'r pwyllgor;
- Cyhoeddi cofrestr o'r penderfyniadau dirprwyedig;
- Datblygu a darparu hyfforddiant i helpu'r Aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac adnewyddu'r hyfforddiant hwn wrth i Aelodau symud o rôl i rôl;
- Adolygu maes gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn darparu'r hyn a ddisgwylir ganddo.

Mewn perthynas â'r awgrymiadau uchod, rhoddwyd fersiwn drafft o Flaenraglen Waith 2016/17 gerbron y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 nodi Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2015;**

**8.2 cymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2016/17.**

_________________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
**01/09/16**

| |
|---|
| **Y Pwnc**<br>**Y Trefniadau Sefydlu a Datblygu ar gyfer Aelodau 2016/17**<br>**Y Pwrpas:** Rhoi'r wybodaeth diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran paratoi Cynllun Datblygu'r Aelodau 2017.<br>Ymgynghori a'r Pwyllgor ynghylch cynnal arolwg o'r aelodau, er mwyn helpu i gynllunio'r Trefniadau Sefydlu ar gyfer y Cynghorwyr yn 2017. |
| **Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**<br>• Cefnogaeth gan y Pwyllgor i hyrwyddo defnydd o gyfarfodydd Datblygu Aelodau 1-1 er mwyn creu darlun clir o unrhyw anghenion datblygu sydd angen ei ddatrys dros y 6-8 mis nesaf.<br>• Derbyn barn y Pwyllgor ar y cwestiynau allweddol sydd angen gofyn i aelodau er mwyn llywio'r gwaith o gyflwyno rhaglen sefydlu gynhwysfawr, llawn gwybodaeth ac effeithiol ar gyfer 2017 |
| **Y Rhesymau:**<br>Rhoi'r gwybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a gwahodd sylwadau ar y fersiwn drafft o'r arolwg. |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad NAC OES**<br>**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES** |

| | | |
|---|---|---|
| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- W.T. Evans – Hyrwyddwr Datblygu Aelodau a L.M. Stephens – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol | | |
| **Y Gyfarwyddiaeth: CEX**<br>**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>**Paul R Thomas**<br>**Awdur yr Adroddiad: Marie Edwards** | **Swyddi: Ymgynghorydd Datblygu Corfforaethol** | **Rhifau ffôn: 01267 246172**<br><br>**Cyfeiriadau E-bost:**<br>**marieedwards@carmarthenshire.gov.uk** |

# EXECUTIVE SUMMARY
## Democratic Services Committee
## 01/09/2016

| Member Development & Induction 2016/17 |
|---|

Personal Development Reviews

Group Leaders and Deputies have been reminded of their role in identifying the development needs of their party members. To date, a small number of options have been put forward anecdotally including media training and awareness-raising on the Future Generations Bill. Further consultation amongst senior council officers will take place in September to identify any service-related training required. Group Leaders / Deputies will also be invited to meet with Learning & Development to feedback any needs arising as a result of their 1-1 meetings with Members.

Member Induction 2017

In order to plan an effective induction programme for new and returning councillors next May, we are seeking the views of existing members about the induction they received in 2012. Specifically, we will be looking for views on what was helpful, what was not so helpful and anything they believe, with the benefit of hindsight, could have been included to assist them in their role. We will also be seeking their views on how the various elements are delivered and considering the use of alternative methods such as e-learning where appropriate.

A draft survey is attached for comments. It is intended that this be developed as an online survey and circulated via email.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | YES - Draft Survey |
|---|---|

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: P.R. Thomas Assistant Chief Executive**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: P.R. Thomas Assistant Chief Executive**

**(Please specify the outcomes of consultations undertaken where they arise against the following headings)**

**1. Scrutiny Committee: N/A**

**2.Local Member(s)**

**Individual Members consulted as part of 1-1 Personal Development Meeting with Group Leaders or Deputy Group Leaders.**

**3. Community / Town Council –** N/A

**4. Relevant Partners –** N/A

**5. Staff Side Representatives and other Organisations –** N/A

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE** (Delete as applicable)

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

<u>**Councillor Induction Survey**</u>

Work is now underway to develop the Councillor Induction Programme for 2017. To help us make sure that the programme is as comprehensive, informative and relevant as possible, we would be very grateful for your views on both the content and method of delivery.

We would appreciate it if you would take 5 - 10 minutes to complete this short survey. Your feedback as existing councillors is extremely valuable and will assist us in delivering an effective induction programme to both new and returning councillors.

1. At the 2012 Councillor Induction, were you a new or returning councillor
    a. New
    b. Returning

2. On a scale of 1-5, how happy were you with the induction you received? [*Add scale 1-5*]. If 2 or less, please add any comments on how it could have been improved.

3. Below is a list of topics that were covered at the 2012 Induction. For each programme, please rate how helpful you found it [*Add scale 1-5 for both content and delivery*]. If 2 or less, please add any comments on how it could have been improved.

| |
|---|
| **Introduction to Local Government – What the Council Does**<br>The Role of Councillors; Roles of Council, Executive Board, Scrutiny, and Regulatory Committees; Meeting procedures |
| **Ethics, Standards, Legal Duties and Responsibilities** |
| **Local Government Finance** |
| **Council Policy Framework:** Equalities and Diversity; Welsh Language; Sustainability |
| **Scrutiny in Carmarthenshire** Including **Performance Management** |
| **Regulatory Functions i.e. Licensing and Planning** |
| **Community Planning & Partnership Working; Collaboration** |
| **Championing Health & Safety at Work** |
| **Familiarisation Tour of the West of the County for Newly Elected Members** To include Carmarthen Leisure Centre; Contact Centre/Careline Llandeilo; Extra Care Scheme Llanybydder |
| **Familiarisation Tour of the East of the County for Newly Elected Members.**To include ‘Showcase; Eastgate Development; refurbished Library; Amman Valley; the Beacon (formerly the Technium) |

DRAFT

4. With the benefit of hindsight, what additional topics, if any, would you recommend be added to the 2017 Councillor Induction Programme.

5. The WLGA have developed a number of e-learning modules to support the induction. This can be a good way of enabling you to undertake the relevant learning at a time and pace convenient to you. How much support, if any, would you need to access these modules?
    a. I'm already comfortable using e-learning
    b. I use IT regularly but would need additional support to confidently use e-learning
    c. I am not yet confident using IT equipment
    d. Other [Please state below]

6. What other forms of learning would you find useful to support your induction?
    a. Reading materials
    b. Directions to relevant websites
    c. Having a more experienced mentor
    d. Other [Please state below]

7. If you are re-elected as a returning councillor, would you be willing to act as a mentor to a new councillor?

8. As an experienced councillor, what do you know now that you wish you'd known when you started?

9. Any other comments you wish to make?

Thank you for taking the time to complete this survey. Your views are appreciated.

DRAFT

# PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
# 1AF MEDI 2016

## ADOLYGU GWYBODAETH AR-LEIN Y CYNGOR O DAN Y PENNAWD CYNGOR A DEMOCRATIAETH

## YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Gofynnir i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ystyried a rhoi sylwadau ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o dan y pennawd Cyngor a Democratiaeth ar y Wefan Gorfforaethol.

## Y RHESYMAU:

Er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorwyr a'r cyhoedd ac i annog diddordeb y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

**Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu** **Amherthnasol**
**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad NAC OES**
**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** **OES**

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n Gyfrifol am y Portffolio:- Y Cynghorydd Terry Davies Cadeirydd y Pwyllgor Democrataidd


| Y Gyfarwyddiaeth | Y Prif Weithredwr | Rhifau ffôn |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Linda Rees-Jones | Swyddi: Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | 01267 224012 LRJ<br>01267 224026 GM |
| Awdur yr Adroddiad: Gaynor Morgan | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd | Cyfeiriadau e-bost:<br>Lrjones@sirgar.gov.uk<br>gmorgan@carmarthenshire.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY

**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**1ST SEPTEMBER 2016**

## REVIEWING THE COUNCIL'S ON-LINE INFORMATION UNDER COUNCIL & DEMOCRACY

The Authority is currently looking at ways that customers can conveniently access both internal and external council services.

The Democratic Services Committee is asked to provide suggestions on what information they would like to include on the Council & Democracy pages which would not only support them in their role as Councillors but would also improve the information available to the public and encourage public engagement.

Recently published information includes a link to the revised Code of Conduct for Members and Co-opted members and application forms for Dispensation from the Standards Committee will shortly be included on the Authority's website, this will allow both County and Town and Community Councils to submit their application forms on-line.

In addition, over the next few months information on 'How to be a Councillor' will be added to the Council and Democracy Pages in readiness for the local government elections in May 2017.

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **NO** |

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Linda Rees Jones, Head of Administration & Law**

**Gaynor Morgan, Head of Democratic Services**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Linda Rees Jones, Head of Administration & Law**

**Gaynor Morgan, Head of Democratic Services**

**1.Scrutiny Committee** Not applicable

**2.Local Member(s)** Not applicable

**3.Community / Town Council** Not applicable

**4.Relevant Partners** Not applicable

**5.Staff Side Representatives and other Organisations** Not applicable

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW:**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Council & Democracy | | http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/ |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol